

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
2010-2011
ANNUAL REPORT**



menter iaith
castell-nedd port talbot

Gair gan y Cadeirydd, Dyfrig Harris

Er ein bod mewn cyfnod o doriadau ariannol gyda mwy o newidiadau mawr i ddod, mae'n bleser gallu dweud bod y Fenter yn llwyddo. Fe fu rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd yn ystod y flwyddyn ac yn anffodus, fu rhaid cwtogi ar y nifer o staff. Serch hynny mae'r newidiadau hyn yn ein galluogi ni i edrych ymlaen at ddyfodol cadarn a llewyrchus.

Mae'r nifer o bobl sydd yn mynychu gweithgareddau'r Fenter yn cynyddu a'r gwasanaeth sydd ar gael yn ehangu. I'r staff yn bennaf mae'r diolch am hyn. Uchafbwynt y flwyddyn i nifer o bobl oedd Gŵyl y Gwach, a phleser oedd gweld yr holl wynebau newydd wnaeth ddod i fwynhau'r gweithgareddau. Mae'n syndod i lawer bod Gigs y Gwach a Gŵyl y Gwach yn rhad ac am ddim a'r brif ffynhonnell ariannol i dalu am y cyfan yw'r sistem talebau Tesco. Cysylltwch â'r Fenter os hoffwch gael mwy o fanylion neu er mwyn ymuno a'r cynllun

Sialens fwyaf y flwyddyn nesa fydd sefydlu Cynllun Aman Tawe. Fe fydd yna lawer o adnoddau ar gael i wneud i'r peth lwyddo a phob lwc i Lisa a'r holl staff fydd yn ymwneud a'r gwaith.

Diolch eto i'r holl staff am eu brwdfrydedd a gwaith caled a diolch hefyd i aelodau'r pwyllgorau a'r gwirfoddolwyr sydd yn helpu gyda'r trefniadau. Fe ddylwn ymffrostio bod cymaint â diddordeb mewn gwirfoddoli i helpu.

Serch hynny, mae angen mwy o help arnom yn enwedig yn ardal Aman Tawe ac os oes chwant arnoch helpu cynnal noson, cyfieithu, ymuno a phwyllgor neu wneud unrhyw waith arall er mwyn sicrhau dyfodol ein hiaith yna gysylltwch â'r Fenter yn syth.

Dyfrig Harris

RHAGAIR

gan Alun Pugh, Prif Swyddog

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn o gyfnerthu i Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot, a bu rhaid gwneud ambell i benderfyniad anodd ynglŷn ag ariannu a staffio'r Fenter tua diwedd y flwyddyn. Er hynny, dw i'n falch i ddweud ni effeithiwyd ar lefel y gwasanaeth a gynigwyd gan y Fenter.

Mae'r gweithgareddau a digwyddiadau a drefnwyd yn ystod y flwyddyn yn fodd i roi cyfle i blant, pobl ifanc, oedolion a dysgwyr i siarad Cymraeg yn gyson ac mae galw cynyddol am y darpariaethau hyn. 'Roedd hwn i'w weld yn y niferoedd a fynychodd ein cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r Pasg a Haf, gyda chanran uchel iawn o'r plant yn dod o gartrefi di-gymraeg.

Mae'r Fenter Iaith yn edrych i sefydlu clybiau newydd o hyd, ac yn dilyn llwyddiant Clwb Pêl-rwyd i ferched a sefydlwyd llynedd mae'n braf nodi ein bod wedi sefydlu clwb perfformio, sef, Twrw Tawe i ddisgyblion Blynyddoedd 5 - 9 ar y cyd gyda Menter Iaith Abertawe. Mae'r clwb wedi profi i fod yn hynod o lwyddiannus.

Yn gymdeithasol, gwelwyd cynnydd yn y nifer o oedolion bu'n cefnogi'r gweithgareddau. Mae'r gefnogaeth i "Gigs y Gwach" wedi bod yn arbennig dros y tair blynedd diwethaf, ac ar benwythnos y 16-17 o Orffennaf 2010, cynhaliwyd Gŵyl y Gwach am y tro cyntaf erioed. Bu'r penwythnos yn llwyddiant ysgubol diolch i holl waith caled Sarah Rees ac aelodau o Bwyllgor Ardal Pontardawe.

Wrth edrych ymlaen at y dyfodol, mae dau gynllun cyffrous iawn ar y gorwel. Yn gyntaf mae'r Fenter wedi bod yn cydweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Gynllun Aman Tawe. Cynllun trawsffiniol i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn ôl yr ymchwil diweddaraf yn colli tir. Penodwyd Swyddog Datblygu sef Lisa Williams i gyflawni'r gwaith, ac ar hyn o bryd mae Lisa wrthi yn sefydlu Pwerdai Iaith ac yn gweithio ar DVD Balchder Bro.

Yn ail mae'r Fenter wedi trefnu gydag Ysgol Gyfun Ystalyfera bod ystafell o fewn yr ysgol yn cael ei glustnodi yn arbennig ar gyfer gweithgareddau'r Fenter, sef clybiau cinio a chlybiau ar ôl ysgol. Yn ogystal i hyn mae'r Fenter wedi derbyn nawdd oddi wrth Wasanaeth Ieuenctid y sir i brynu celfi ag offer technegol i ddodrefnu'r ystafell.

Mae'r Fenter yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gydweithio gyda disgyblion a staff yr ysgol ar y cynllun newydd arloesol hyn.

Rhagair (parhad)

Hoffwn ddiolch i Bwyllgor Rheoli'r Fenter am eu cefnogaeth ddi-baid â hefyd i aelodau'r Pwyllgorau Ardal am eu holl waith caled, y staff sydd wedi bod yn gymorth mawr i fi yn ystod cyfnod o gyfnerthu, ac yn bwysicach byth, mae'r Fenter yn hynod o falch am y gefnogaeth a dderbyniwyd gan drigolion y sir a gobeithio gwnaiff hyn barhau a chynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Cyfarwyddwyr Cwmni Cyfyngedig

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot

Dyfrig Harris (Cadeirydd)
John Thomas (Trysorydd)
Arwyn Woolcock (Cynrychiolydd y Cyngor Sir)
Glynis Williams
Owain Lewis
Anna Phillips
Rhian Llewellyn
Margaret Jones
Huw Evans

Aelodau'r Pwyllgor Rheoli

Y Cyfarwyddwyr +
Eirian Youngman (RhAG)
Huw Bowen (Cadeirydd PwyllgorArdal Pontardawe)
Pat Jones (Cadeirydd Pwyllgor Ardal Castell-nedd)
Noir Jones (Cadeirydd Pwyllgor Ardal Aman Uchaf)

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot

Canolfan Gymunedol y Groes
1 Stryd Fawr
Pontardawe
Abertawe
SA8 4HU

☎ 01792 864949 / 01792 869797

✉ menter@micnpt.org

🌐 www.micnpt.org

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant: 6156176

Staff Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot

Alun Pugh Prif Swyddog
Rhys Evans Swyddog Maes
Sarah Rees Swyddog Maes
Linda James Rheolwraig Swyddfa

Diolch hefyd i'r llu o weithwyr rhan amser sy'n gweithio yn ein cynlluniau chwarae a'n clybiau wythnosol ac i'r holl wirfoddolwyr sydd yn cynorthwyo'r Fenter Iaith yn ddi-baid.

Plant / Children

Clybiau Wythnosol / Weekly Clubs

Ystyrir plant 0-11 oed yn garfan bwysig i weithio gyda, yn enwedig o safbwynt cynnig ystod o gyfleoedd ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan Y Fenter bartneriaeth dda iawn gydag ysgolion yr ardal a chafwyd cydweithio agos ar nifer o gynlluniau a gweithgareddau. Mae nifer fawr o weithgareddau Plant Cynradd (4-11 oed) wedi cael eu trefnu gan y Fenter Iaith.



Primary school children are considered an important group to work with, especially from the perspective of offering a range of additional opportunities through the medium of Welsh. Menter Iaith CNPT has a very good partnership with the primary schools and has worked closely on a number of schemes and activities for primary school children (age 4-11).



Gwersi Nofio
Caffi Seiber
Gwersi Gitâr
Gwersi Golf
Clybiau ar ol Ysgol

Swimming Lessons
Cyber Cafe
Guitar Lessons
Golf Lessons
After School Clubs

Cynlluniau Chwarae / Playschemes

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yw'r unig ddarparwyr ar gyfer Cynlluniau Chwarae Haf / Pasg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir. Mae'r ddau leoliad, Pontardawe a Chastell-nedd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Bu'r Cynlluniau yn fodd o gynnig gwasanaeth gofal i rieni, darpariaeth chwarae i blant a chyfle i gymdeithasu drwy'r Gymraeg yn enwedig i blant o gartrefi di-gymraeg.



Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot is the only provider of Summer / Easter playschemes through the medium of Welsh in the County. The two playschemes, Pontardawe and Neath have been very successful. The Play Schemes were a means of offering child care service for parents, a play provision for children and an opportunity to socialise in Welsh, especially for those children from non-Welsh speaking homes.



Canolfan Hwyr Ddyfodiaid Ystalyfera / Ystalyfera Language Centre

Eleni eto bu Rhys Evans, Swyddog Maes y Fenter yn cynorthwyo'r plant sydd yn mynychu'r Ganolfan Hwyr Ddyfodiaid yn Ystalyfera i baratoi cyflwyniad o flaen cynulleidfya fel rhan o brynghawn agored yn Ysgol y Wern.

Once again, Rhys Evans the Menter Iaith Field Officer has been assisting children who attend the language centre in Ystalyfera to prepare for their presentations to family and friends as part of the Centres open afternoon.

Cynllun Sblash a Chân / Splash and Sing Scheme

Bu'r Fenter yn cydweithio gyda TWF eleni eto yn cynnal sesiynau yn y pwll nofio ym Mhontardawe ar gyfer rhieni a babanod rhwng 6 mis oed a 3 mlwydd oed. Cynhelir y sesiynau am 11:45 tan 12:15 bob bore dydd Mawrth. Ar ôl canu a chwarae yn y dŵr bu'r swyddogion yn sgwrsio gyda'r rhieni dros banded am fanteision addysg Gymraeg.



Menter iaith worked closely with TWF once again arranging sessions in Pontardawe Swimming Pool for parents and babies between the ages of 6 months and 3 years. The sessions were held every Tuesday morning between 11.45 and 12.15. Following the pool sessions, the staff chatted with the parents regarding the advantages of Welsh Medium Education.

Pobl Ifainc / Young People

Gwelir yr ystod oedran 11-18 oed yn un o brif flaenoriaethau'r Fenter o safbwynt cynnig cyfleoedd ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith. Mae gan y Fenter berthynas agos ac adeiladol iawn gyda'r ysgolion uwchradd, Urdd Gobaith Cymru, Gyrfu Cymru ac amryw o glybiau a chymdeithasau. Yn ogystal mae'r Fenter wedi trefnu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir gyfwerth â £7,000.



The 11-18 age band is viewed as one of Menter iaith CNPT's main priorities in offering additional opportunities through the medium of Welsh and promoting the use of the language.

The Menter iaith has a very close and constructive relationship with the secondary schools, Urdd Gobaith Cymru, Careers Wales and various other clubs and societies. In addition, the Menter iaith has arranged a Service Level Agreement with the Borough Council Youth Service to the value of £7,000.



Cynllun Rocio / Rock Project

Yn dilyn nawdd gan y Gwasanaeth Ieuenctid o £500, fe drefnwyd sesiynau hyfforddiant yn ystod gwyliau'r haf i gerddorion a chantorion ifanc y sir i sefydlu grwp(iau) roc. Y bwriad yw y bydd y band a sefydlwyd yn ystod yr haf yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Fenter iaith yng nghystadleuaeth 'Brwydr y Bandiau' Radio Cymru / C2.



Following a grant of £500 from the Youth Service, tuition sessions were arranged during the summer holidays for young musicians and singers of the county to establish a rock group(s). The aim was that the band that was established during the summer would go on to represent Menter iaith in 'Battle of the Bands'.

Cyfweliadau Ffug, Gyrfau Cymru / Mock Interview, Careers Wales

O ganlyniad i berthynas a chydweithio agos gyda Gyrfau Cymru mynychodd 2 swyddog y Fenter Iaith wythnos cyfweliadau ffug (yn Gymraeg) a drefnir gan Gyrfau Cymru ar gyfer disgyblion BL11 Ysgol Gyfun Ystalyfera ym mis Tachwedd. Cafodd 48 o bobl ifanc eu cyfweld gan y swyddogion.



Following a close working relationship with Careers Wales, 2 of Menter iaith's officers attended Mock Interview Week that was arranged by Careers Wales for the year 11 students of ysgol Gyfun Ystalyfera in November. 48 young people were interviewed by the officers, through the medium of Welsh.

Cefnogi Arferion Iaith / Supporting Language Skills

Yn dilyn nawdd oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg, bu Swyddog Maes Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn cydweithio gyda staff a disgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera er mwyn creu gorsaf radio ag e-gylchgrawn i'r ysgol. Mae'r orsaf yn darlledu rhaglenni Cymraeg am awr y dydd i'r neuadd, ffreutur a lolfar chweched. Mae'r orsaf wedi cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i nifer o ddisgyblion yr ysgol ac mae hefyd wedi rhoi hwb i statws yr iaith. Mis Chwefror aethom a chriw Radio Gwifren Ysgol Ystalyfera i stiwdio'r BBC yng Nghaerdydd i gyfarfod sêr rhaglen ieuenctid Radio Cymru C2, Glyn Wise a Maggi Dodd. Cafodd pob disgybl gyfle i siarad ar y radio gyda rhai'n darllen y bwletin newyddion ac yn darllen siart C2 ac eraill yn cael eu holi'n fyw ar yr awyr.



Stiwdio C2 – Radio Cymru

Following a grant from the Welsh Language Board, Menter iaith's Field Officer worked closely with staff and pupils at Ysgol Gyfun Ystalyfera to establish a radio station and electronic magazine for the school. The radio station produces 1 hours of Welsh language programmes daily, which can be heard in the main hall, refectory and the 6th form common room. The station has introduced Welsh rock music to a large number of pupils and had a positive effect on the status of the language generally. In February Menter iaith arranged for the key staff at the radio station to visit C2-Radio Cymru studios in Cardiff to meet Glyn Wise and Maggie Dodd. Every pupil got the opportunity to speak on the radio, some read the news bulletin or the C2 charts and others were interviewed live on air.

DVD Ymwybyddiaeth Iaith / Welsh Language Awareness DVD

Yn dilyn cais llwyddiannus i Fframwaith Plant a Phobl Ifanc CNPT i greu DVD yn dangos bod y Gymraeg dal i fod yn 'cŵl', aethpwyd ati i ddangos y DVD i bobl ifanc y sir. Cafodd y sgrïpt a'r lleoliadau ffilmio i benderfynu gan y bobl ifanc. Mae'r DVD yn cynnwys golygfeydd o'r hen Ysgol Gynradd yn Sain Ffagan, Stadiwm Liberty, Stiwdio Tinopolis a thraeth Llangennith.



Following a successful application to the NPT Children and Young Peoples Partnership to create a DVD showing that it's 'cool' to speak Welsh, arrangements were made to show the DVD to the young people of the county. The script and locations were all decided by the young people. The DVD contains scenes of the old primary school at St Fagans, Liberty Stadium, Tinopolis Studio and the beach at Llangennith.

Clwb Perfformio / Performing Art's Club

Sefydlwyd Clwb Perfformio newydd sbon i flynyddoedd cynradd 5 a 6 ac uwchradd 7, 8 a 9 ar y cyd rhwng Menter Iaith CNPT a Menter Iaith Abertawe. Mae'r clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth rhwng 17:30 a 19:00 yng Nghanolfan Ieuencid Stadwen, Ffordd Bethel, Llansamlet o dan arweinyddiaeth Elfair Jones, Emyr Jones a Cath Price.



A Performing Arts Club was established for primary school children, years 5 and 6 and secondary school children, years 7,8 and 9 in partnership between Menter Iaith CNPT and Menter Iaith Abertawe. The club meets every Tuesday evening between 17:30 and 19:00 at the Stad Wen Youth Centre in Llansamlet under the leadership of Elfair Jones, Emyr Jones and Cath Price.

Bowlio Deg / Ten Pin Bowling

Yn dilyn llwyddiant y daith i fowlio deg nol ym mis Mawrth ac ar ôl llawer o geisiadau o'r bobl ifanc, aeth y Fenter Iaith a chriw newydd o bobl ifanc i fowlio deg yn Tenpin, Abertawe. Roedd y bws yn llawn unwaith eto, a phob un o'r bobl ifanc wedi mwynhau yn fawr iawn. Roedd y cystadlu yn frwd, llongyfarchiadau i Laura ar gael y sgôr uchaf.



Following the success of the Ten Pin Bowling trip in March, it was decided to take another group of young people bowling at the end of April. The bus once again was full and a good time was had by all. The competition was fierce, congratulations to Laura in achieving the highest score.

Profiad y Brawd Mawr / The Big Brother Experience

Roedd Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot a Menter Iaith Abertawe mewn partneriaeth a Gwasanaeth Ieuencid Abertawe wedi rhoi cyfle gwych i bobl ifanc brofi rywbeth hollol unigryw a gwahanol yn ystod Haf 2010 sef Profiad y Brawd Mawr. Roedd y profiad yn rhedeg am 3 diwrnod cyfan gyda 22 o gyfranogwyr yn mynd mewn i'r tŷ 6 o bobl ifanc o'r sir hon wedi'u dewis i fod yn rhan o'r profiad arbennig hwn. Bu rhaid i'r bobl ifanc cwblhau heriau er mwyn goroesi, gyda'r enillydd yn cipio £100. Roedd cyfle i gadw mewn cysylltiad gyda beth oedd yn mynd ymlaen yn y tŷ ar y blog, lle bu'r diweddaraf o'r tŷ yn cael ei ddangos.



Swansea Youth Service in partnership with Menter Iaith Abertawe and Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot gave young people a unique and rare chance to experience something totally different during the summer 2010 i.e. the Big Brother

Experience. The experience ran for 3 full days with 22 participants entering the house having to complete various challenges in order to survive, and the winner taking home £100 in cash. It was possible to keep up with the goings on in the house on the blog, which had regular updates and footage from the house.

Drama i bobl ifanc ‘Cwrw, Chips a Darlith Deg’

Ar y 18fed o Hydref, trefnodd Menter Iaith fod Cwmni Theatr Arad Goch yn dod a'i sioe fwyaf diweddar sef 'Cwrw, Chips a Darlith Deg' i Gastell Nedd Port Talbot.

Comedi yng nghwmni Gary Jones, glas fyfyrwr o'r cymoedd sy'n ceisio troi yn ddyn yw "Cwrw, Chips a Darlith Deg". Ni'n cwrdd â Gary ar ddiwedd ei dymor cyntaf yn y coleg ac yn dod i adnabod ei deulu, ei ffrindiau a chael hanes crôls, darlithoedd a merched! Bydd y ddrama yn atgoffa myfyrwyr y gorffennol o'i ieuencid ffôl, yn dal drych i fywyd myfyrwyr y presennol, ac yn agoriad llygad doniol i fyfyrwyr y dyfodol.

Roedd hi'n noson hynod o lwyddiannus gyda neuadd Ysgol Gyfun Ystalyfera dan ei sang.



On the 18th of October, Menter Iaith arranged for Arad Goch Theatre Company to bring their most recent show 'Cwrw, Chips a Darlith Deg' to Neath Port Talbot.

'Cwrw, Chips a Darlith Deg' is a comedy in the company of Gary Jones, a fresher student from the valleys who is trying to become a man. We meet Gary at the end of his first term in college and we get to know his family and his friends, we also hear about his pub crawls, lectures and girls! The drama will remind past students of their mad youth, will hold a mirror to the lives of present students, and will be an eye opener for students of the future. It was a fantastic evening and Ysgol Gyfun Ystalyfera's main hall was jam-packed.

Rhaglen ‘Jonathan’ TV Programme

Ar nos Iau 9fed o Ragfyr cafodd y Fenter Iaith wahoddiad i fod yn rhan o gynulleidfa sioe Nadolig rhaglen deledu 'Jonathan'. Felly aeth swyddog y Fenter a chriw o bobl ifanc o Ysgol Gyfun Ystalyfera i ddatlu a chwerthin yn stiwdio'r Ffatri Bop, Porth, Rhondda. Roedd y criw wrth eu bodd gyda'r gwsteion, Shane Williams un o chwaraewyr rygbi gorau'r byd, a Caryl Parry Jones un o berfformwyr a diddanwyr amlycaf Cymru. Roedd y sioe yn ddoniol fel arfer gyda naws Nadoligaidd hyfryd hefyd. Trip llwyddiannus arall i'r Fenter i sioe Jonathan!



Menter Iaith took another crew of young people to be a part of the audience in the Christmas edition of the popular programme 'Jonathan'. Even though the bus was stuck in a traffic jam for nearly 2 hours because of an accident, when we eventually got to the studio at the Ffatri Bop, Porth, Rhondda a cracking time was had by all. The young people really enjoyed the Christmas feel to the night and were more than happy with the guests who included Shane Williams, one of the worlds best rugby players, and Caryl Parry Jones one of Wales' most prominent performers.

Cymru – Fiji

Ar nos Wener y 19eg o Dachwedd llwyddodd Menter Iaith, ar y cyd gyda'r Urdd, lenwi bws cyfan o bobl ifanc i fynd ar drip i Stadiwm y Mileniwm i weld yr ornest fawr rhwng Cymru a Fiji. Roedd y wibdaith yn agored i bobl ifanc Castell Nedd Port Talbot a llenwyd y bws gyda disgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera ac Ysgol Cwmtawe. Roedd y bobl ifanc llawn ysbryd lle gwelwyd ambell un yn colli llais, trwy floeddio canu caneuon megis Calon Lan a Delilah.....ac ambell un wrth waeddu eu boddhad bod y 'Saturdays' yn canu hanner amser!

Braidd yn siomedig oedd safon y gêm, gyda'r gêm yn gyfartal ar y chwib olaf. Serch hynny roedd y daith yn un llwyddiannus gyda'r bobl ifanc wedi mwynhau'n llwyr ac yn falch o gael y cyfle i fynd i Stadiwm y Mileniwm i gefnogi'r tîm Cenedlaethol.



Menter iaith and the Urdd took a bus full of young people from Neath Port Talbot to the Millennium Stadium on the 19th of November to watch Wales take on Fiji. The young people consisted of pupils from Ysgol Gyfun Ystalyfera and Cwmtawe School. Everybody was on top form, some losing their voices from singing songs like Calon Lan and Delilah on top of their voices, and others by expressing their satisfaction (very loudly!) that the 'Saturdays' were singing as half time entertainment!

The game itself was disappointing with a bad performance by Wales, ending as a draw game. However the trip was successful with the young people thoroughly enjoying and glad to have the opportunity to support the national team at the Millennium Stadium.

Taith Preswyl / Residential Trip – Pentre Ifan

Dros hanner tymor trefnodd Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot, ar y cyd gyda'r Urdd, taith preswyl i bobl ifanc y sir i Bentre Ifan, Sir Benfro. Roedd y bobl ifanc wrth eu bodd yn ymlacio, coginio, chwarae gemau a chymdeithasu yn ogystal ag ymweld â Siambr Gladdu Pentre Ifan, Cofeb Waldo Williams, a bedd Thomas Rees 'Twm Carnabwth'. Hefyd cafwyd sesiwn ymwybyddiaeth iaith ddiddorol iawn lle gwelwyd y bobl ifanc yn cael cyfle prin i drafod, rhannu teimladau a mynegi barn am yr iaith Gymraeg.

Roedd pawb wedi joio ac yn awyddus i wneud rhywbeth tebyg yn y dyfodol agos.



Menter iaith and the Urdd organized a residential trip for the young people of Neath Port Talbot to Pentre Ifan, Pembrokeshire. The young people enjoyed whilst relaxing, cooking, playing games and socializing as well as visiting Pentre Ifan Burial Chamber, Waldo Williams' commemorative monument, and Thomas Rees' (Twm Carnabwth) grave. Also a Welsh Language awareness session was had, where the young people had a rare opportunity to discuss, share feelings and state their opinion on the Welsh language.

Everybody thoroughly enjoyed and the group is eager to arrange a similar trip in the near future.

Sglefrio Iâ / Ice Skating – Abertawe

Trefnwyd taith i fynd i sglefrio ia yng Ngwledd y Gaeaf ar y Glannau Abertawe ar nos Fawrth y 14eg o Ragfyr. Daeth criw brwdfrydig iawn o flwyddyn saith Ysgol Ystalyfera gyda swyddogion y Fenter. Aethom yn syth ar ôl gorffen ysgol, wedyn cafodd y bobl ifanc cyfle i grwydro o amgylch y maes gan flasu'r bwydydd a'r losin gwahanol oedd ar gael, heb son am y reidiau cyffrous. Roedd rhai o'r bobl ifanc yn amlwg wedi sglefrio ia o'r blaen, a rhai efallai angen mwy o ymarfer, gan gynnwys swyddog y Fenter!! Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr, ac yn edrych ymlaen at wneud rhywbeth tebyg eto.



A trip to go Ice Skating at the Waterfront Winterland, Swansea was arranged. A crew of keen year 7 students from Ysgol Gyfun Ystalyfera and the Menter staff left straight from school on Tuesday the 14th of December, and after arriving the young people had a chance to wander around the 'Winterland' tasting the various foods and sweets available, not to mention going on the exciting rides. Some of the young people had obviously skated before, where some might just need a little more practice....including the staff!! A good time was had by all, and everyone is looking forward to a similar trip soon.

**Cefnogi Menter Pobl Ifainc/
*Supporting Young Peoples Initiative***

Mae criw o bobl ifanc yn Ysgol Gyfun Ystalyfera wedi sefydlu cwmni gemwaith o'r enw 'Gemwaith o'r Galon!'. Roedd y bobl ifanc wedi creu cymaint o argraff ar staff y Fenter rhoddwyd gwahoddiad i gynnal sesiwn creu gemwaith i grwp o famau yn Ysgol y Waun. Bu'r Fenter yn ddiolchgar iawn i Jodie Kedward ac Elin Phillips am gynnal sesiwn hynod o lwyddiannus ble roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn, ac amseru perffaith i greu'r gemwaith hyfryd i roi fel anrheg Nadolig....neu falle i'w cadw eu hunain!



A crew of young people from Ysgol Ystalyfera have shown great entrepreneurial skills and have established a jewellery company called 'Gemwaith o'r Galon!'. Menter Iaith was so impressed with the new venture that they invited some of the young people to conduct a jewellery making session for young mothers at Ysgol y Waun.

Menter Iaith would like to thank Jodie Kedward and Elin Phillips for conducting the session. A great time was had by all, and beautiful jewellery was created, perfect for Christmas presents...or maybe to keep for themselves!

Pwyllgorau Ardal / Area Committees

Sefydlwyd Pwyllgorau Ardal i fod yn ddolen gyswllt rhwng y Fenter Iaith a chymunedau lleol, ac i weithredu prosiectau penodol ar ran Pwyllgor Rheoli'r Fenter.

Area Committees were established to act as a link between the Menter Iaith and the local communities, and to implement specific projects on Menter Iaith's behalf.

Pwyllgor Ardal Pontardawe / Pontardawe Area Committee

Gigs y Gwach

Mae Pwyllgor Ardal Pontardawe wedi mynd o nerth i nerth. Un o lwyddiannau mawr y Pwyllgor yw "Gigs y Gwach" - gigs misol sydd yn rhad ac am ddim yn Nhafarn y Gwachel Pontardawe, gyda rhai o berfformwyr gorau Cymru yn ymddangos yn y 'Gwach'. Dyma amserlen Ebrill 2010 i Mawrth 2011

Ebrill – Daniel Lloyd + Betti Galws
Mai – Brigyn + Bronwen Lewis
Mehefin – Huw M + Andrew Lewis
Gorffennaf – Gŵyl y Gwach (gweler yr adroddiad)
Medi – Meic Stevens + Alun Tan Lan
Hydref – Mr Huw + Yr Angen
Tachwedd –Cowbois Rhos Botwnog. Dim gig (eira)
Rhagfyr – Gwibdaith Hen Fran. Dim gig (eira)
Ionawr – Gai Toms + Andrew Lewis
Chwefror – Briechiau Hir + Nos Sadwrn Bach
Mawrth – Dathlu tair mlynedd o Gigs y Gwach gyda Gwibdaith Hen Fran + Y Cyfoes



Alun Tan Lan a Meic Stevens yn y Gwachel

The Pontardawe Area Committee has gone from strength to strength during the last year. One of the main successes being "Gigs y Gwach".

Monthly acoustic gigs, held free of charge at the Pontardawe Inn (The Gwachel). Some of Wales' best performers have appeared at the 'Gwach'.

Listed above are the bands that have appeared at the Gwachel from April 2010 to March 2011.

Gŵyl y Gwach 16-17 Gorffennaf / July

Cynhaliwyd Gŵyl y Gwach cyntaf erioed yn nhafarn Y Gwachel ym Mhontardawe ar benwythnos yr 16eg-17eg o Orffennaf a chafodd ei agor yn swyddogol gan yr actor Gymraeg, Dafydd Hywel. Cafodd yr ŵyl ei drefnu gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot fel estyniad ar Gigs y Gwach, sef gigs Cymraeg misol a chynhelir yn nhafarn Y Gwachel, Pontardawe.

Cychwynnwyd yr ŵyl nos Wener yng nghwmni Dewi Pws, Ryland Teifi a Radwm, a ddarparwyd noson wych o adloniant a cherddoriaeth draddodiadol yn ogystal â'i hiwmor. Cafwyd aelodau bodlon iawn o'r gynulleidfa yn ymuno yn yr hwyl yn ystod caneuon megis Lleucu Llwyd, Beic penny farthing fy nhaid a MOMFG.



Ar brynhawn Sadwrn cafwyd ddiwrnod i'r teulu gan gynnwys castell neidio, sgiliau syrcais, amryw o gemau, stondinau, dawnsio gwerin ac injan dân go iawn i'r plant gael gweld. Yn ystod y prynhawn croesawyd dau westai arbennig, sef Superted a Dewi a wnaeth adlonni'r plant (a'r oedolion) gyda'i dawnsio!

Cafwyd 4 band o ar draws Gymru i gyd i berfformio nos Sadwrn, Yr Alltud (Abertawe), Adrift (Sir Gaerfyrddin), Y Bandana (Caernarfon) a Sara Mai a'r Moniars (Ynys Môn). Perfformiodd pawb yn arbennig o dda yn enwedig Sara Mai a'r Moniars a berfformiodd amryw o ganeuon gan gynnwys 'Rhywbeth amdanat ti', 'Baker Street' a chlasur Jimmy Hendrix 'Voodoo Child'. Daeth yr ŵyl i derfyn yn addas iawn gyda'r Anthem Genedlaethol – y fersiwn traddodiadol i ddechrau, yn dilyn gyda'r fersiwn roc!

The inaugural “Gŵyl y Gwach” Festival was held at the Pontardawe Inn (known locally as the Gwachel) the weekend of the 16th-17th of July and was officially opened by Dafydd Hywel the Welsh actor. The Festival was organised by Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot and was intended as an extension to their monthly Welsh language gigs which are held at “The Gwachel” Pontardawe.

The Festival kicked off on the Friday evening in the company of Dewi Pws, Ryland Teifi and Radwm, who managed to provide a wonderful evenings entertainment of traditional music and humour, with participation from a very willing audience during “Lleucu Llwyd”, “Beic penny farthing fy nhaid” and “MOMFG”.

Saturday afternoon was far more family orientated with a bouncy castle, circus skills, a variety of games and stalls, traditional folk dancing and a real fire engine for children to see at close quarters. During the afternoon the Festival welcomed two special guests in “Superted” and “Dewin” who entertained the children (and adults) with their dancing skills!

Four bands from all over Wales were invited to perform on the Saturday evening, Yr Alltud (Swansea), Adrift (Cardigan), Bandana (Caernarfon) and Sara Mai a'r Moniars (Anglesey). All the bands gave excellent performances especially Sara Mai a'r Moniars, who performed a wide variety of songs which included “Rhywbeth amdanat ti”, “Baker Street” and even the Jimmy Hendrix classic “VooDoo Child”. The Festival was brought to a very fitting close with the singing of the Welsh National Anthem, traditional version first, followed immediately by the rock version.

Crotesi'r Cwm – ‘Joio er lles yr iaith’

Criw o fenywod ifanc (neu'n ifanc eu ffordd) yw Crotesi'r Cwm sy'n cwrdd yn fisol yng Nghlwb Rygbi'r Alltwn o dan adain y Fenter Iaith, i gymdeithasu ac i hybu Cymreictod yng Nghwmtawe - a joio mas draw wrth wneud!



Noson Gemwaith

‘Crotesi'r Cwm’ is a club for young women (or young in their ways) who meet on a monthly basis at Alltwn Rugby Club established by the Menter Iaith with the aim of socialising and promoting the Welsh language – whilst having a good time.

Cwis Nadolig / Christmas Quiz

Cynhaliwyd cwis Nadolig y Fenter Iaith eleni fel yr arfer yng Nghlwb Rygbi'r Alltwn. Bu'r Fenter yn ffodus iawn i gael Alun Wyn Bevan a Cennydd Davies yn gwis feistri unwaith eto. Daeth dros 100 o bobl i'r cwis, a braf oedd gweld nifer o ddysgwyr a phobl ifanc yn bresennol.



The Menter Iaith Christmas Quiz was held as usual at Alltwn Rugby Club. Once again we were very fortunate to obtain the services of Alun Wyn Bevan and Cennydd Davies. Over 100 people attended the quiz, and it was great to see a number of Welsh learners and young people present.

Clwb Darllen / Welsh Book Club

Mae Clwb Darllen Pontardawe yn cwrdd yn wythnosol, gyda thua 10 o aelodau brwd yn mynychu'n rheolaidd o dan ofal Ann Rosser yn Llyfrgell Pontardawe.



The Pontardawe Book Club meets on a weekly basis. The club is attended by approximately 10 very keen members under the leadership of Ann Rosser at Pontardawe Library.

Clwb Pêl-droed i Oedolion / Adults Football Club

Mae Clwb Pêl-droed y Fenter Iaith yn cwrdd bob nos Fercher am 8.00 o'r gloch yng Nghanolfan Hamdden Pontardawe o dan arweinyddiaeth Wyn Thomas, Bryncoch.



Menter Iaiths Football Club meets on a weekly basis every Wednesday, 8.00pm at Pontardawe Leisure Centre, under the leadership of Wyn Thomas, Bryncoch.

Cwis Dwyieithog / Bilingual Quiz

Cynhaliwyd Cwis dwyieithog yn Nhafarn Y Gwachel, Pontardawe ar nos Iau, Tachwedd yr 11eg. Cafwyd brwydr agos iawn rhwng y timau i gyd, gydag un neu ddau bwynt yn eu gwahanu'r holl ffordd. Gwelwyd amryw o glipiau ar y sgrin fawr a chwestiynau yn dilyn. Cafwyd rowndiau lluniau ac anagrams hefyd i brofi'r cystadleuwyr ym mhellach! Yn y pen draw, fe ddaeth tîm 'Gang y Gwter' i'r brig, gyda'r timau eraill i gyd yn dynn tu ôl iddynt. Longyfarchiadau i 'Gang y Gwter' a dderbyniodd gwobr ariannol am ennill.



A Bilingual Quiz was held at the Pontardawe Inn on Thursday November the 11th. It was a very close battle with just one or two point separating the teams throughout. Numerous clips were shown on the screen with questions to follow. There were picture rounds and anagram rounds included to test the teams further! In the end, 'Gang y Gwter' were the winners, with the other teams very close behind. Congratulations to 'Gang y Gwter' for winning!

Noson Gomedï / Comedy Night Noel James, Iwan Williams a Gillian Elisa

Cynhaliwyd Noson Gomedï yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe ar nos Wener y 29ain o Hydref. Dechreuwyd y noson gyda Noel James yn diddanu'r gynulleidfa gyda'i straeon doniol a'i ganeuon doniolach fyth gan gynnwys fersiwn ei hun o gân Dafydd Iwan a addaswyd i 'Pam fod eira'n felyn?'. Parhau gwnaeth y chwerthin gydag Iwan Williams, sydd yn aelod o'r grŵp Jac y Do. Clywsom am ei helyntion fel athro, a'r un disgybl direidus - Joni! Gillian Elisa oedd y trydydd ar lwyfan gyda set yn cynnwys straeon digri a chanu. Noel wnaeth ddod yn ôl i gloi noson lwyddiannus iawn ym Mhontardawe gyda'r gynulleidfa wedi mwynhau'n fawr iawn!



A Comedy Night was held in the Pontardawe Arts Centre on Friday the 29th of October. Noel James opened the night with some very humorous stories & even funnier songs, such as a Dafydd Iwan song, that he'd changed the words to: 'Why is snow yellow?' The laughter continued with Iwan Williams, who is a member of the group - Jac y Do. He spoke about his time as a teacher with a mischievous pupil - Joni! Gillian Elisa was next on stage with more funny stories & songs. Noel returned to end the very successful night in Pontardawe, with the audience having thoroughly enjoyed!

Gŵyl Haf / Summerfest - Pontardawe

Cynhaliwyd Gŵyl Haf Pontardawe ar benwythnos 13-14 Awst gyda nifer o weithgareddau amrywiol ar gyfer pob oed. Trefnwyd yr Ŵyl gan Siambr Fasnach Pontardawe ac fe wahoddwyd y Fenter Iaith i drefnu adloniant Cymraeg yn y babell ar y nos Sadwrn.

Cafwyd perfformiadau gwych gan 'Triphlyg', 'Gildas' â'r 'Plebs' a hoffai'r Fenter Iaith ddiolch yn fawr iddynt am roi noson arbennig i drigolion yr ardal. Mae'r Fenter Iaith yn ddiolchgar iawn i'r Siambwr Fasnach am y gwahoddiad ac yn awyddus i gydweithio unwaith eto yn ystod y Gwyliau tymhorol sydd i ddod.



Pontardawe Summerfest was held on the 13th-14th of August with numerous activities arranged for various ages. The festival was arranged by Pontardawe Chamber of Trade & Commerce, who invited Menter Iaith to arrange an evening of Welsh entertainment on Saturday night. We had performances by 'Triphlyg', 'Gildas' and the 'Plebs'.

Menter Iaith is grateful to Pontardawe Chamber of Trade & Commerce for the invitation & we look forward to working with them again in the festivals to come.

Helpa Drysor / Treasure Hunt – Pontardawe

Prynhawn Sul, 16 Mai, daeth trigolion yr ardal i gymryd rhan mewn 'Helpa Drysor' ar droed a threfnwyd gan Huw Bowen, Cadeirydd Pwyllgor Ardal Pontardawe.

Trefnwyd 3 taith i gyfeiriadau gwahanol i osgoi'r timau dilyn ei gilydd.

Bu'r Helpa yn sialens i ran fwyaf o'r timau, gydag ambell i dîm yn gweld rhannau o Bontardawe ni welwyd byth o'r blaen!

Gymerodd rhan fwyaf tua 2 awr i gwblhau'r tasgau ac i ddatrys y cwestiynau, cyn cyrraedd yn ôl yn y Gwachel i gael diod a phryd o fwyd.

'Tîm y Rhos' enillodd y wobr gyntaf, sef pryd o fwyd i 4 yn y Gwachel, rhodd gan Jason y perchennog. Diolch yn fawr i Jason am ei haelioni, Huw Bowen am ei waith caled trefnu'r holl beth ac i'r timau â'r stiwardiaid am eu cefnogaeth ar y diwrnod.



Sunday afternoon, 16th May a Treasure Hunt was held in Pontardawe starting from the Pontardawe Inn. The competition was arranged by Huw Bowen, Chairman of the Pontardawe Area Committee. Three different routes were arranged to stop the teams from following each other. The hunt was a real challenge for most of the teams, with one team in particular visiting parts of Pontardawe never seen before! After approximately 2 hours all of the teams had returned for a well deserved drink and meal. 'Team Rhos' won the first prize of a meal for 4 at the Pontardawe Inn, courtesy of Jason the Landlord. Thanks must go to Jason for his generosity, Huw Bowen for all of his hard work in arranging the event and to all of the teams and stewards for their support on the day.

Pwyllgor Ardal Castell-nedd / Neath Area Committee

Digwyddiadau Cymdeithasol / Social Events

Braf nodi ers sefydlu Pwyllgor Castell-nedd, mae nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol llwyddiannus iawn wedi cymryd lle. Dyma flas ar rhai o'r digwyddiadau:-

Since the formation of the Neath Committee, a number of very successful social events have been organised. Here is an example of some of the events:-

Taith Gerdded Resolfen / Resolven Nature Walk

Cynhaliwyd taith gerdded Sgwd Melin Cwrt a Fferm Wynt Ffynnon Oer bore dydd Sadwrn, 24 Ebrill. Trefnwyd y daith ar y cyd gyda Chymdeithas Edward Llwyd. Diolch yn fawr i Owain Lewis o Bwyllgor Rheoli'r Fenter am arwain ac i'r 25 a fynychodd y daith.

Bu'r Fenter yn cydweithio gyda Chymdeithas Edward Llwyd yn hysbysebu a mynychu'r teithiau lleol a threfnwyd yn lleol.



The Sgwd Melin Cwrt and Ffynnon Oer Wind Farm nature walk was held on Saturday morning, 24th April. The walk was arranged in partnership with Cymdeithas Edward Llwyd. The 25 that attended the walk were led by a Menter Iaith's Management Committee, Mr Owain Lewis.

Menter Iaith have worked in partnership with Cymdeithas Edward Llwyd advertising and attending the walks that were held locally.

Cwis Ffilmiau / Film Quiz

Cynhaliwyd Cwis Ffilmiau yn y Crown & Sceptre, Llangatwg ar nos Lun yr 17eg o Fai. Roedd hi'n noson lwyddiannus dros ben gyda'r lle yn llawn dop o gystadleuwyr. Paratôdd y Fenter glipiau o ffilmiau adnabyddus a chwestiynau i gyd-fynd. Roedd y sgôr yn agos iawn, yn enwedig rhwng y 3 tîm uchaf. Yn fuddugol gyda 90.5 o bwyntiau: Tîm Wil.



A Film Quiz was held at the Crown & Sceptre, Llangatwg Monday evening, 17th May. The evening was a great success with the room full of competitors. Menter Iaith had prepared a number of clips from very famous films with questions to follow. The score was extremely close between the top three teams. The winning team was 'Team Wil'.

Bore Coffi – Macmillan - Coffee Morning

Ar fore ddydd Gwener y 24ain o Fedi, trefnodd aelodau o is-bwyllgor Castell-nedd gymryd rhan yn fore Coffi Mwya'r Byd er mwyn codi arian i elusen Macmillan. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd rhwng 10-11 y bore. Braff yw dweud cafodd dros £160 ei gasglu, gyda mwy yn dal i ddod fewn. Hoffai'r Fenter ddiolch i aelodau'r is-bwyllgor am drefnu'r digwyddiad ac yn enwedig i'r rhai oedd wedi bod yn coginio'r teisennod blasus! Diolch i bawb am eu cyfraniadau at yr achos da.



On Friday morning, the 24th of September, members of the Neath area committee arranged to take part in the World's Biggest Coffee Morning to raise money for the Macmillan charity. It was held in Neath Welsh Primary School's hall between 10-11am. It's a pleasure to announce that over £160 was raised, with more money still coming in. Menter Iaith would like to thank all members of the area committee that arranged the event, and especially to those who baked the beautiful cakes! Thank you to everyone for their contribution to such a good cause.

Taith 'nabod ardal / Know your area trip

Nos Wener, Medi 24ain daeth criw o dros ddeugain o bobl ynghyd i fynd ar daith 'Nabod Ardal. Roedd yn ddechrau cyfres o deithiau arfaethedig gan is-bwyllgor Castell-nedd. Felly, calonogol oedd yr ymateb i apêl y syniad. Braff oedd cael Mr Phylip Jones, brodor â'i wreiddiau'n ddwfn yn yr ardal, i'n tywys ar y daith.

Gadawodd y cwmni mewn hen fws o'r 70au a fenthycwyd gan adran foduron Amgueddfa Abertawe, a Mr Huw Morgans yn yrrwr medrus arno.

Dechreuwyd ar y daith drwy oedi ger eglwys hynafol Llangatwg, a chael yno hanes diddorol yr eglwys gan Mr Jones. Soniodd hefyd am gysylltiad

H.M. Stanley ag ardal Llangatwg.

Ymlaen â'r bws i Aberpergwm, lle'r oedd y Ficer Peter Lewis yn aros i groesawu'r grŵp i eglwys deuluol y teulu Williams ers talwm. Hyfryd oedd gweld yr eglwys a chlywed ei hanes, a'r tristwch oedd cofio mai adfail bellach yw'r hen blasty gerllaw.

Rhaid oedd symud cyn nosi i Melincwrt. Yno cafwyd hanes diddorol yr hen gapel ymneilltuol gan Mr Phylip Jones. Anodd credu mai ger y capel roedd hen bentref y gweithwyr haearn gynt.

Wrth iddi nosi, trodd y bws nol at westy'r Crown and Sceptre yn Llangatwg lle'r oedd cyfle i gymdeithasu a chael swper. Cafwyd noson wrth fodd pawb.

Crown and Sceptre Hotel in Cadaxton where we had a chance to socialise and have supper. A great night was had by all.



Pwyllgor Ardal Aman Uchaf / Aman Uchaf Area Committee

Sefydlwyd Pwyllgor Ardal Aman Uchaf gyda chriw o drigolion ifanc, brwdfrydig iawn, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth trigolion yr ardal o adloniant Cymraeg ac i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

The Upper Aman Area Committee was formed with a young and very enthusiastic crew of people with the aim of raising the awareness of local residents regarding Welsh language entertainment and to create opportunities to use the language socially.

Tîm Pêl-rwyd / Netball Team

Ers sefydlu tîm pêl-rwyd blwyddyn ddiwethaf, mae'r Clwb wedi mynd o nerth i nerth. Mae'r Merched yn ymarfer yng nghampfa Ysgol Gwauncaegurwen bob nos lau am 6yh o dan hyfforddiant Sarah Rees, Swyddog Datblygu'r Fenter.

Erbyn hyn mae Sarah wedi datblygu ochr gymdeithasol y clwb, ac wedi trefnu nifer o nosweithiau allan i'r merched.



On Friday the 24th of September, a group of over 40 people came together to go on a journey 'Know Your Area'. It was the start of a series of journeys organised by the Neath area committee, the numbers for the first journey were very reassuring. It was great to have Mr Phylip Jones, a native with his roots firmly in the area, to guide us on the journey.

We travelled on an old bus from the 70s, which was lent to us by the motors section of Swansea Museum, with Mr Huw Morgans as the skilled driver.

We started the journey near Cadaxtons' ancient church, where we got to hear the interesting history by Mr Jones. He also spoke of H.M. Stanley and his connection with Cadaxton.

On to Aberpergwm, where Vicar Peter Lewis welcomed the group to the church which was once the church of the Williams family. It was wonderful to see the church and to hear history.

Before it got dark, we moved on to Melincwrt. Here we heard the interesting history of the old chapel by Mr Phylip Jones. It is hard to believe that the iron workers old village used to be near the. As it got darker, the bus turned back towards the

Since Menter Iaith established the netball team last year, the Club has gone from strength to strength. The girls train in the gymnasium at Ysgol Gynradd GCG every Thursday evening at 6.00pm under the coaching of Sarah Rees, Menter Iaith Field Officer. In addition to meeting to play netball, Sarah has developed the social side of the club and has arranged a number of evenings out for the girls.



Gig Elin Fflur a'r band + Gildas

Nos Wener 1 Hydref, cafwyd gig yng Nghlwb Rygbi Brynmanan yng nghwmni Elin Fflur a'r band a Gildas. Cawsom wledd o gerddoriaeth o safon uchel iawn. Dechreuodd Gildas y noson gydag ambell gan newydd o'i albwm diweddaraf 'Nos Da'. Wedi ymddangosiad byr gan Elin Fflur, fe ddychwelodd Gildas i wneud un set arall cyn i Elin a'r band gymryd i'r llwyfan i gloi'r noson. Cafodd pawb eu synnu gan bŵer ei llais! Perfformiodd caneuon megis 'Harbwr Diogel' a 'Llwybr Lawr i'r Dyffryn', gan hyd yn oed cymryd yr amser rhwng caneuon i sgwrsio gyda'r gynulleidfa am rygbi! Ar y cyfan roedd hi'n noson o adloniant o'r safon uchaf a chafwyd ymateb wych gan bawb. Edrychwn ymlaen at y gig nesaf!



On Friday, 1st October a gig was arranged at Brynmanan Rugby Club with Elin Fflur & the band + Gildas. We had a feast of music at a very high standard! Gildas opened the night with some new

songs from his latest album 'Nos Da'. After a short appearance from Elin Fflur, Gildas returned for another set, before Elin and the band took to the stage to end the night. Everyone was blown away by her powerful voice! She performed songs such as 'Harbwr Diogel' & 'Llwybr Lawr i'r Dyffryn' and even took the time in between songs to chat to the audience about rugby! The night was very successful and we look forward to the next gig!

Gig Dwyieithog / Bilingual Gig Peepshow + Yr Angen

Ar nos Wener y 25ain o Fawrth, fe drefnwyd noson ddwyieithog yng Nghlwb Rygbi Cwm-gors. Cawsom berfformiadau gan enillwyr Brwydr y Bandiau 2010 - Yr Angen, a'r band Saesneg - Peepshow. Band lleol yw'r Peepshow, gyda Tom Hamer yn brif leisydd - gynt o'r band Nevarro. Cafwyd amrywiaeth eang o gerddoriaeth o'r Kings of Leon i Katy Perry! Gorffennwyd y noson gyda fersiwn unigryw o'r Anthem Genedlaethol.



On Friday the 25th March, a bilingual gig was held at Cwmgors Rugby Club. There were performances from Radio Cymru / C2 Battle of the Bands 2010 winners 'Yr Angen' and the local band 'Peepshow' with the former Nevarro lead singer Tom Hamer. We were treated to a range of music, from the Kings of Leon to Katy Perry! The evening was brought to a close with a special rendition of our National Anthem.

Cwis Chwaraeon / Sports Quiz

Cynhaliwyd cwis chwaraeon ar y cyd gyda Menter Bro Dinefwr yng Nghlwb Rygbi Brynmanan ar nos lau 10 Mawrth. Roedd hi'n noson i'w gofio gyda 10 tîm yn cystadlu'n frwd. Y cwis feistr oedd Alun Wyn Bevan.



A sports Quiz was arranged in partnership with Menter Bro Dinefwr in Brynaman Rugby Club, Thursday, 10th March. The quiz master was Alun Wyn Bevan.

Marchnata a Hyrwyddo / Marketing and Promoting

Fforwm Iaith Sirol / Welsh Language Forum

Bu'r Fenter iaith gyda'r cyntaf i sefydlu Fforwm iaith Sirol nôl ym mis Mawrth 2003. Ers hynny mae'r Fforwm wedi mynd o nerth i nerth gydag aelodau yn cynnwys aelodau o bartneriaid Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ogystal ag adrannau Cymraeg i Oedolion Prifysgol Abertawe, Coleg Afan Nedd, CGG NPT a Rhwydwaith Dysgu Newydd. Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle i'r aelodau i ddod ynghyd i drafod datblygiadau a syniadau newydd ac i gydweithio ar brosiectau penodol.



Sarah Rees MICNPT a Bethan Howells MYM
Canolfan Siopa Aberafan

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot was one of the first to establish a Welsh Language County Forum back in March 2003. Since then the Forum has gone from strength to strength and includes all the main partners of the Welsh Language Board in addition to Welsh for Adults departments at Swansea University, Afan Nedd College, NPT CVS and New Learning Network. The Forum enables members to come together to discuss new ideas and developments and to work in partnership on specific projects.

'Mae dy Gymraeg di'n grêt'

Bu'r Fenter iaith yn gweithio ar y cyd gyda TWF yn trefnu sesiynau wythnosol anffurfiol i rieni ardal Gwaun-cae-gurwen ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bwriad y prosiect oedd defnyddio'r sesiynau i annog pobl sy'n medru'r Gymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd, yn enwedig gyda'r plant.



Menter iaith in partnership with TWF arranged weekly informal sessions on behalf of the Welsh Language Board for parents from the Gwaun-cae-gurwen area. The aim of the project was to persuade people who could speak Welsh to consider doing so on a daily basis, especially with their children.

'Yn y bag!' / 'In the bag!'

Ar ddydd Gwener yr 11eg o Fehefin, fe aeth swyddogion a staff y Fenter i Tesco Pontardawe i bacio bagiau'r cwsmeriaid. Y bwriad oedd codi arian ar gyfer Gŵyl y Gwach dyma'n cymryd lle ar yr 16eg a'r 17eg o Orffennaf. Hoffai'r Fenter ddiolch i holl staff Tesco am eu cydweithrediad ac i'r cwsmeriaid am eu haelioni.



On Friday the 11th June, Menter iaith officials and staff went to Tesco Pontardawe to pack bags for the customers. The aim being to raise money and awareness of the our Summer Festival 'Gŵyl y Gwach', which was held on the 16th + 17th July.

Celfyddyd Cymraeg i Bontardawe / Welsh Arts in Pontardawe

Mae'r Fenter iaith wedi bod yn cydweithio'n agos iawn gyda Chanolfan Celfyddydau Pontardawe i ddod a dwy ddrama sef 'Gadael yr Ugeinfed Ganrif' gan Theatr Sherman a 'Deffro'r Gwanwyn' gan Theatr Genedlaethol Cymru i Bontardawe. Yn ogystal bu'r Fenter yn cydweithio gyda Chwmni Da i drefnu noson i ddathlu tafodiaith Cwmtawe sef 'Ar Lafar' diwedd Mawrth.

Bu'r ymateb i'r cynrychiadau yn dda iawn, gyda'r ddwy noswaith ar gyfer 'Deffro'r Gwanwyn' yn gwerthu mas dyddiau cyn y perfformiadau.


Hoffai'r Fenter ddiolch i reolwraig Canolfan Celfyddydau Pontardawe, Angie Dickinson am ei chydweithrediad ac i'r Cwmnïau Theatr / Teledu am ddod a'u cynrychiadau i Bontardawe.



Aled Pedrick, cyn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Ystalyfera
Yn perfformio yn 'Deffro'r Gwanwyn'

Tŵlcit Cerddoriaeth BYIG / WLB 'Toolkit'

Mae'r Fenter wedi bod yn cydweithio gyda Bwrdd yr Iaith a Mentrau eraill yn y De Orllewin i greu 'tŵlcit' o wybodaeth am y sin gerddoriaeth. Mae swyddogion y mentrau a'r bwrdd wedi dod at ei gilydd i greu ffolder o wybodaeth yn amrywio e.e. sut i drefnu gig, sut i gael gafael ar fandiau, beth yw'r rheolau pwysig, sut mae mynd ati i weithio gyda'ch cyllid ayyb. Mae'r 'tŵlcit' yma wedi bod yn gymorth mawr eisoes gan fod y mentrau'n rhannu eu manylion cyswllt a chostau'r artistiaid er mwyn sicrhau bod pawb yn cael pris teg a chyson.



Menter has been working along side the Welsh Language Board & other organisations to create a toolkit containing useful information about the Welsh music scene. They have come together to create a folder containing various information e.g. how to organise a gig, how to get hold of bands, what are the main rules in organising a gig, how to work well with your budget etc. The toolkit has already been a big help, especially as the organisations can now share their contact information & the costs of the artists in order to ensure everyone gets quoted a fair price.

Gŵyl Feithrin 2010 / MYM Festival

Fe aeth dau o swyddogion y Fenter i'r Orendy ym Mharc Margam ar gyfer yr Ŵyl Feithrin. Trefnwyd y diwrnod gan swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin lle ddaeth cannoedd o blant i weld sioe arbennig Gwenda Owen. Roedd gan y Fenter stondin yno yn dosbarthu gwybodaeth am addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd .



Two of Menter Iaith's staff went to the Orangery in Margam for the Mudiad Ysgolion Meithrin Festival. The Festival was arranged by the MYM staff and hundreds of children came to see the specially arranged show by Gwenda Owen. Menter Iaith arranged a stand for the day distributing information on Welsh medium education and the advantages of bilingualism.

Diwrnod i'r Teulu / Family Day

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn ym Mharc Margam ar ddydd Mawrth y 30ain o Fawrth. Fe wnaeth y Fenter gydweithio ar stondin gyda Mudiad Ysgolion Meithrin yn siarad gyda'r rhieni am fanteision addysg ddwyieithog. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gyda nifer fawr o rieni yn ystyried o ddifri dewis addysg Cymraeg i'w plant.

A successful day was had at Margam Park on Tuesday, 30th March. Menter Iaith worked in partnership with Mudiad Ysgolion Meithrin on a stall, talking to parents about the advantages of bilingual education. The response by the parents was very encouraging, with a large number considering Welsh education for their children.

Addysg Gymraeg / Welsh Medium Education

Mae'r Fenter Iaith yn cynnal stondinau gwybodaeth ar draws y sir e.e. Gŵyl Feithrin y sir, Ffeiriau Haf / Nadolig ysgolion cynradd ag uwchradd ac yn rhan o wybodaeth y stondin mae'r Fenter yn marchnata addysg Gymraeg drwy ddsbarthu deunydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg sef 'Y cychwyn gorau posib'; 'Y ffordd ymlaen' a manylion 'Llinell Cefnogi Gwaith Cartref'.



The Menter Iaith arrange information stands across the county e.g. Gŵyl Feithrin, Summer / Christmas Fetes at primary and secondary schools. Part of the information the stand provides is the Welsh Language Board's literature regarding Welsh

medium education – 'The best start possible'; 'The way ahead' and details of the 'Welsh Homework Support Line'.

Pwyllgor RhAG Committee

Yn dilyn arweiniad y Fenter Iaith i sefydlu Pwyllgor sirol RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg). Penodwyd Eirian Youngman fel y Cadeirydd cyntaf. Erbyn hyn mae Eirian yn Gadeirydd Cenedlaethol ac yn cynrychioli RhAG ar Bwyllgor Rheoli'r Fenter Iaith.



Menter Iaith was responsible for establishing a County Committee for RhAG (Parents for Welsh Education). Eirian Youngman was elected the first ever Chairperson. Eirian has since been elected the National Chairperson and represents RhAG on the Menter Iaith Management Committee.

Digwyddiadur (e-chlysur) / Events (via e-mail)

Mae gan y Fenter Iaith gynllun Digwyddiadur sydd yn ffurf o gofrestru unigolion drwy wefan y Fenter, i'w hysbysebu am ddigwyddiadau Cymraeg yn lleol neu yn genedlaethol. Mae'r system yn galluogi'r unigolyn i gofrestru ar gyfer pob digwyddiad neu ddigwyddiadau o ddiddordeb. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cofrestrwyd dros 200 ar y Digwyddiadur sydd yn gwneud cyfanswm o dros 900 o aelodau. I gofrestru, ewch i wefan y Fenter:- www.micnpt.org

Menter Iaith operates a system called 'Digwyddiadur' which is a way of registering individuals through the Menter's website, in order to advise them of events through the medium of Welsh locally and nationally. The system enables the individual to register to receive information for all events or for events of interest. During the last financial year over 200 people registered on the 'Digwyddiadur', making a total of more than 900 members. To register, go to the Menter Iaith website:- www.micnpt.org


Papur Bro - Llais

Mae'r Fenter Iaith yn cydweithio'n agos iawn gyda swyddogion y Papur Bro, ac yn paratoi tudalen gyfan sydd i'w gweld yn y papur bob mis. Mae gan 'Llais' gwerthiant o tua 750 yng Nghwm-tawe.

Menter Iaith work closely with the officials at 'Llais' the Welsh language local newsletter. An entire page is devoted to Menter Iaith which appears within the paper every month. The paper sells approximately 750 copies every month.

Rhaglenni Gêm y Gweilch / Ospreys Match Programmes

Mae'r Fenter Iaith wedi trefnu erthyglau dwyieithog i dîm rygbi'r Gweilch ers iddynt gael ei sefydlu. Defnyddiwyd pobl adnabyddus i ysgrifennu'r erthyglau o fyd y cyfryngau, chwaraeon a gwleidyddiaeth e.e. Jason Mohammed (Cyflwynwr Teledu); Alun Ffred Jones (Aelod Cynulliad); Sam Warburton (Captain Tîm Rygbi Cymru) a Lowri Morgan (Cyflwynwraig Teledu). Mae ymateb y cefnogwyr, cyfranwyr a'r Gweilch i'r erthyglau wedi bod yn gadarnhaol iawn ac yn bendant wedi codi profil yr iaith Gymraeg yn ogystal â'r Fenter Iaith.



Menter Iaith has been responsible for arranging bilingual articles for the Ospreys match programme since their inception. Menter Iaith arranged for well known people from the world of media, sport and politics e.g. Jason Mohammad (TV Presenter); Alun Ffred Jones (Assembly Member); Sam Warburton (Welsh Rugby Team Captain) and Lowri Morgan (TV Presenter) to write the articles. The response to the articles from supporters, contributors and the Ospreys has been very encouraging and has certainly raised the awareness of the Welsh language and Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot.

Gwaith Strategol a Gweinyddol / Strategic and Administrative Work

Diolch i gefnogaeth ariannol y Cyngor Bwrdeistref Sirol wnaeth Gwmni Sbectrwm paratoi Cynllun Strategol cynhwysfawr i'r Fenter. Mae'r cynllun yn cael ei ddiwygio'n gyson gan y Pwyllgor Rheoli ac mae rhaglenni gwaith dydd i ddydd y staff yn seiliedig ar y cynllun.

Yn ogystal i'r Cynllun Strategol, mae'r Fenter Iaith wedi paratoi y polisiau/strategaethau canlynol:-

- Polisi Gweithdrefnau Amddiffyn Plant
- Polisi Cydraddoldeb
- Polisi Cynladwyedd
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Rheolaeth Ariannol Fewnol
- Strategaeth Cyflogi Pobl
- Strategaeth Rheoli Risg
- Strategaeth Marchnata

Mae gan bob aelod o staff 'Ffeil Personol' sydd yn cynnwys y Llawlyfr Staff, cytundeb a disgrifiad swydd, ffurflenni asesiad swydd, rhaglenni gwaith, cofnod misol o'r oriau a weithiwyd, cofnod gwyliau, ffurflenni costau teithio a chofnod o absenoldeb gyda ffurflenni hunan ardystio.

Cofrestrwyd y Fenter Iaith fel Cwmni Cyfyngedig ym mis Mawrth 2007.

Thanks to the financial backing from the County Borough, Cwmni Sbectrwm prepared a comprehensive Strategic Plan for Menter Iaith. The strategy is updated regularly by the Management Board and the day to day staff work programmes are based on the strategy.

In addition to the Strategic Plan, Menter Iaith has prepared the following policies:-

- *Child Protection Policy*
- *Equal Opportunities Policy*
- *Sustainability Policy*
- *Health and Safety Policy*
- *Internal Financial Management Policy*
- *Employing People Strategy*
- *Risk Management Strategy*
- *Marketing Strategy*

Every member of staff has a Personal File which includes the Staff Handbook, signed contract, job description, staff assessment forms, work programmes, monthly time sheets (flexi), annual leave sheets, travelling expenses forms, absence forms and self certification (illness) forms.

Menter Iaith registered as a Limited Company in March 2007.

Yn ystod 2010-11 mae'r Fenter Iaith wedi gweithredu fel canolfan adnoddau a gwybodaeth ar gyfer y Gymraeg yn sirol e.e. gwybodaeth am ddisbarthiadau Cymraeg lleol; cylchoedd Ti a Fi a meithrinfeydd; addysg Gymraeg, yn ogystal a gwybodaeth am ddigwyddiadau / gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynigwyd gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig ac ar y pryd yn ogystal â llogi'r offer cyfieithu i wahanol fudiadau ac asiantaethau.

Mae'r Fenter hefyd yn cynnig gwasanaeth posteri / tocynnau Cymraeg / dwyieithog i fudiadau, unigolion ac asiantaethau'r sir.

During 2010-11 Menter Iaith served as a local resource and information centre for the Welsh language e.g. Welsh for adults classes; Welsh Ti a Fi groups and Welsh nursery schools; Welsh medium education in addition to information regarding events and activities through the medium of Welsh.

A written and simultaneous translation service was provided in addition to hiring the translation equipment to different organisations and agencies. Menter Iaith also offers a Welsh / bilingual poster / ticket service for organisations, individuals and agencies across the county.

DATGANIAD ARIANNOL CRYNO

Cyfrifon Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2011.

Bancwyr Banc Barclays
16 Stryd Fawr
Pontardawe
ABERTAWE

Cyfrifydd O.G.Jones

CAERDYDD

Adroddiad y Cyfrifydd

Yn unol â'r cyfarwyddiadau a gefais, yr ydwyf
wedi paratoi'r cyfrif incwm a gwariant a'r
fantolen amgaeedig o'r wybodaeth, yr
esboniadau a'r cofnodion cyllid a ddarparwyd.

O.G.Jones
Cyfrifydd Siartredig Ardystiedig

Dyddiad: 19 Awst 2011

***Noder**

Gellir gweld copi o gyfrifon llawn Menter Iaith
Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys nodiadau
cefnogol yn swyddfa'r Fenter.

SUMMARY FINANCIAL STATEMENT

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot accounts
for the year ended 31 March 2011.

Bankers Barclays Bank
16 High Street
Pontardawe
SWANSEA

Accountant O.G.Jones

CARDIFF

Accountants Report

In accordance with instructions given to me, I
have prepared the enclosed income and
expenditure account and balance sheet from
your accounting records and information and
explanations provided.

O.G.Jones
Certified Chartered Accountant

Date: 19 August 2011

***Note**

A copy of the full accounts including
supporting notes can be seen at Menter Iaith
Castell-nedd Port Talbot's office.

ADRODDIAD ARIANNOL

Crynodeb o Gyfrifon 2010-11

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
 Canolfan Gymunedol y Groes
 1 Stryd Fawr
 Pontardawe
 Abertawe
 SA8 4HU

Rhif Ffôn: 01792 864949 / 01792 869797
 e-bost: menter@micnpt.org
 gwefan: www.micnpt.org

Adnoddau a dderbyniwyd	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	2010-11 £	2009-10 £
Grantiau				
Bwrdd yr Iaith Gymraeg	75,569			
CBS CNPT	6,425	6,607		
Loteri Fawr		4,973		
Cyngor Celfyddydau	2,332			
Talebau Tesco	1,496			
Cyfanswm Grantiau	85,822	11,580	97,402	110,987
Rhoddion	1,895	0	1,895	1,576
Prosiectau	9,702	0	9,702	8,105
Cyfanswm derbyniwyd	97,419	11,580	108,999	120,668
Adnoddau a wariwyd				
Gweithgareddau	82,007		82,007	77,540
Costau cynnal	10,222		10,222	10,155
Prosiectau	10,483	5,469	15,952	30,481
Cyfanswm a wariwyd	102,712	5,469	108,181	118,176
Adnoddau net a dderbyniwyd	-5,293	6,111	818	0
Balans a ddygwyd ymlaen	9,408	0	0	0
Balans a gariwyd ymlaen	4,115	6,111	10,226	9,408

ADRODDIAD ARIANNOL**Crynodeb o Gyfrifon 2010-11 (parhad)****Mantolen ar 5 Ebrill 2011**

	£
Asedion cyffyrthadwy	<u>4,350</u>
Cyfanswm asedion sefydlog	<u>4,350</u>
Dyledwyr	0
Arian yn y Banc ac mewn llaw	10,226
Cyfanswm asedion cyfredol	<u>14,576</u>
Credydwyr tymor byr	<u>6,111</u>
Asedion net	<u>8,465</u>
Cynrychiolwyd gan:	
Cronfeydd anghyfynedig	<u>8,465</u>
Asedau Sefydlog	<u>8,465</u>

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariadau arbennig yn rhan vii o ddeddf y cwmnïau 1985 yn berthynol i gwmnïau bychain.

Am y flwyddyn diweddu 31 Mawrth 2011, yr oedd gan y cwmni hawl i ryddhad dan adran 249a(1) o Ddeddf Cwmnïau 1985. Nid oes un aelod wedi mynnu i'r cwmni gael awdit o'i gyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag adran 249b(2). Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am 1: i) Sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnodion cyfrifon yn unol ag adran 221; a ii) Paratoi cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni o ran elw a cholled ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn unol ag adran 226, ag sydd fel arall yn unol ag anghenion Deddf Cwmnïau sy'n berthynol i gyfrifon cyn belled ag sy'n berthynol i'r cwmni.

Cymeradwywyd ar ran Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot

Dyfrig Harris
 CADEIRYDD

John Thomas
 TRYSORYDD

Alun Pugh
 PRIF SWYDDOG

26 Awst 2011



menter iaith
castell-nedd port talbot

**PRIF NODDWYR
MAIN SPONSORS**



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

sports
council
wales



cyngor
chwaraeon
cymru



DYMA DY GYFLE
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

The **co-operative** membership 
Community Fund



CEFNŌGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY



ARIAN I BAWB
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

www.micnpt.org